OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 570 (Cy.66)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 12 Mawrth 2013
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 12 Mawrth 2013
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), a pharagraff 15B o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 113(2) o'r Ddeddf honno, paragraff 6 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, a pharagraffau 1 a 12 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

Yn unol â pharagraff 15B(6) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno mae Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013. Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2013.

(2) Daw rheoliadau 3(c) i (e), 7 i 9 ac 11 i rym ar 29 Ebrill 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1992 p.14. Diwygiwyd adran 113(2) gan adran 80 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 a mewnosodwyd paragraff 15B o Atodlen 2 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan adran 17(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p.17).

(**2**) Diwygiwyd paragraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) gan adran 14 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p.17). Diwygiwyd paragraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan adran 14 o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002 (p.16), ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, adran 28 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (p.5) ac Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, ac adrannau 9 a 61 o Ddeddf Diwygio Lles 2009 (p.24), ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae paragraff 12 yn cael ei ddiwygio ymhellach gan adrannau 31 a 37 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p.24), ac Atodlenni 2 a 14 i'r Ddeddf honno, ond ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn nid yw'r diwygiadau eto mewn grym.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992

2. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**4**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11.

3. Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o "business day" mewnosoder—

""council tax offence" has the same meaning as in the detection of fraud regulations;";

(b) ar ôl y diffiniad o "demand notice regulations" mewnosoder—

""detection of fraud regulations" means the Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013(**5**);";

(c) ar ddiwedd y diffiniad o "exempt dwelling", hepgorer "and";

(d) ar ddiwedd y diffiniad o "managing agent" hepgorer "." a mewnosoder "; and";

(e) ar ôl y diffiniad o "managing agent" mewnosoder—

""universal credit" means universal credit under Part 1 of the Welfare Reform Act 2012(**6**)."

4. Ar ôl rheoliad 5 (gwybodaeth o ran marwolaethau) mewnosoder—

"**Purposes for which a Revenue and Customs official may supply information**

5A. The purposes prescribed under paragraph 15B(1) of Schedule 2 to the Act are—

(a) making a council tax reduction scheme;

(b) determining a person's entitlement or continued entitlement to a reduction under a council tax reduction scheme;

(c) preventing, detecting, securing evidence of or prosecuting the commission of a council tax offence.

Purposes for which information supplied under paragraph 15B may be used

5B. The purposes prescribed under paragraph 15B(3) of Schedule 2 to the Act are any purposes connected with—

(a) making a council tax reduction scheme;

(b) determining a person's entitlement or continued entitlement to a reduction under a council tax reduction scheme;

(c) preventing, detecting, securing evidence of or prosecuting the commission of a council tax offence;

(d) any proceedings before the Valuation Tribunal for Wales(**7**) in connection with a reduction under a council tax reduction scheme.

Purposes for which information supplied under paragraph 15B may be supplied

5C. The purposes prescribed under paragraph 15B(4) of Schedule 2 to the Act are—

(**4**) O.S. 1992/613. Gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 1992/3008, O.S. 1995/22, O.S. 2004/785, O.S. 2009/2709 ac O.S. 2013/62 (Cy.13).
(**5**) O.S. 2013/588 (Cy.67).
(**6**) 2012 (p.5).
(**7**) Sefydlwyd Tribiwnlys Prisio Cymru gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (O.S. 2010/713 (Cy.69)). Gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 2013/547 (Cy.59).